

Wyt ti yna?

*“Yna clywais lais yr Arglwydd yn dweud, ‘Pwy a anfonaf? Pwy a â drosom ni?’
Atebais innau, ‘Dyma fi, anfon fi.’” (adn. 8)*

Beth am ddarllen Eseia 6:1–8 ac yna myfyrio

Un o’r cwestiynau sydd yn aros yn wastad gyda golwg ar ddiwygiad yw: Pam, pan mae diwygiad yn dod, mai ond am gyfnod y mae’n aros? Gyda rhai diwygiadau medrwch roi dyddiad y cychwyn, a bron y medrwch roi dyddiad wrth sôn am ddiwedd y dylanwad. Nid oes gennyf ateb clir i’r cwestiwn, oddieithr nodi fod y Beibl yn cyfeirio at gyfnodau o adnewyddiad (Actau 3:19). A yw’r cyfeiriad at gyfnod neu dymor yn awgrymu dechrau a diwedd?

Ond, nid gofidio am y pethau dirgel mewn diwygiad yw ein consymr pennaf ond, yn hytrach, sylweddoli o’r newydd ein hangen dybryd am dymor o fendith, tymor pryd y mae’r Ysbryd Glân yn disgyn mewn nerth. Gwyrth yw diwygiad, a d’oes ond Duw sydd yn abl i gyflawni gwyrthiau. Er hynny, mae hanes yn ein dysgu fod yna gyfnod cyn yr ymweliadau gwyrthiol hyn, lle y mae Duw yn gweithio ar galonnau ac yn peri dyhead a baich, baich na all neb ond Duw, a dim ond ymweliad dwyfol, ei ryddhau.

Wrth i Dduw alw Moses dywedodd, ‘Wele fi’ (Exodus 3:4). Pan alwyd Samuel dywedodd ‘Wele fi’ (1 Samiwel 3:1–10). Ac yma, mae Eseia yn ymateb yn yr un modd, ac yn mynegi’r fraint anghyffredin sydd yn deillio o glywed llais Duw, ac yn arbennig Ei lais yn galw yn bersonol. Efallai bod rhai ohonoch, wrth ichwi ddarllen y geiriau hyn, yn ymwybodol fod yr Ysbryd yn delio â’ch enaid, yn siarad i mewn i’r galon, yn gofyn, ‘Wyt ti yna?’ Caniatewch i mi ofyn y cwestiwn eto, ‘Wyt ti yna?’ Mae Duw yn chwilio am bobl i osod y baich am ddiwygiad ar eu calonnau. Wyt ti yn un ohonynt? Cynnig dy hun, ildia i’r Arglwydd, yn wir, gofyn iddo roi’r baich hwn ar dy galon di.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Jer. 29:10–14; Dan. 9:1–5; 9:17–19

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd addewid Duw i Jeremeia?
2. Beth oedd ymateb Daniel i ddarllen yr addewid?

Gweddi

Dad trugarog, os wyt yn gofyn heddiw i mi, ‘Wyt ti yna?’, yna rwyf am ymateb gyda phob tamaid ohonof, ‘Dyma fi’. Defnyddia fi O! Arglwydd yn ôl d’ewylllys. Danfon ddiwygiad, a danfon dy Ysbryd arnaf i. Yn enw Iesu. Amen.